CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Y Parch Ddr Andras Iago – Ffon- **07778511672.**
Hydref 2017 *Rhif 079*

Ar ddiwrnod olaf mis Hydref eleni bydd yna ddathliadau mawr. Na, nid noson Calan Gaeaf – er mae'n siŵr bydd yna ddathlu mawr ar hynny hefyd! – ond dathlu pum can mlynedd ers dechrau'r Diwygiad Protestannaidd yn yr Almaen.

Mae'n debyg mai'r geiriau 'so what' fyddai ymateb nifer petaem ni'n nodi hynny mewn sgwrs gyda ffrindiau. Ond mae'n ddigwyddiad hynod bwysig a arweiniodd at newidiadau anferth yn ein gwlad ni. Diwygwyr Protestannaidd fel William Salesbury a William Morgan gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg, gan roi cyfle i ni'r Cymry i ddarllen gair Duw yn ein hiaith. Roedden nhw wedi eu gyrru gan y gred fod rhaid i bobl glywed am gariad rhyfeddol Duw at bobl mewn geiriau y gallent eu deall.

Ers hynny rydyn ni wedi cael sawl cyfieithiad gwahanol – o gyfieithiad William Morgan i beibl.net, ac mae cenedlaethau o bobl wedi clywed neges Duw ar eu cyfer hwy. Erbyn heddiw mae'n haws cael gafael ar y Beibl yn Gymraeg nac erioed. Bellach gallwch gael pob un o'r prif gyfieithiadau – o Destament Salesbury i Beibl.net – ar eich ffôn symudol. Does dim esgus bellach (heblaw, efallai, diffyg batri!).

Mae biliynau o bobl o gwmpas y byd heddiw yn cael fod Duw'n siarad â hwy trwy ei Air - ei fod yn ei harwain a'u cysuro, eu herio a'u llawenhau. Felly ar **Hydref 4ydd** am 1.30 y.p. byddwn yn ailddechrau cyfarfodydd i astudio'r Beibl gyda'n gilydd. Cyfarfodydd anffurfiol fydd y rhain, a bydd cyfle i ni ddarllen a holi cwestiynau dros baned (a chacen hefyd gobeithio!) Am y ddeufis nesaf byddwn ni'n edrych ar rhai o ddywediadau pwysicaf Iesu yn Efengyl Ioan – y rheiny sy'n dechrau â'r geiriau enwog 'Myfi yw'. Croeso mawr i bawb!

DIGWYDDIADUR

OEDFA - I DDATHLU 450 MLWYDDIANT CYFIEITHU'R TESTAMENT NEWYDD I'R GYMRAEG

yng nghwmni Arfon Jones, Caerdydd fu'n bennaf gyfrifol am gyfieithu beibl.net.

Hydref 1af am 6 y.h. yn Capel Coffa Henry Rees, Llansannan.

DARLITH: DATHLU 450 MLYNEDD ERS CYHOEDDI Y TESTAMENT NEWYDD CYMRAEG GAN WILLIAM SALESBURY –

Fel rhan o'r dathliadau, cynhelir darlith wedi ei threfnu gan Gymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan **nos Fercher, Hydref 4ydd** am 7.30.

Traddodir y ddarlith gan y Dr E. Gwynn Mathews.

Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Cinio'r Fro

Dydd Gwener Hydref 13eg

am 12 dydd yn Festri Capel Mawr

Croeso i bawb

CAPEL Y FRON

CYNGERDD gyda

CÔR BRO ALED ac

Unawdwyr o'r Côr

yng Nghapel y Fron

Nos Sul y 15fed o Hydref am 7.30y.h.

Mynediad £6 i oedolion.

Elw tuag at Adeiladau y Capel.

Tocynnau ar gael gan unrhyw aelod o Bwyllgor yr Adeiladau neu yn Siop Clwyd

Maes parcio wrth Ysgol Twm o'r Nant ar gael

Astudiaeth Feiblaidd y Fro

Cyfarfodydd anffurfiol i ddarllen ac astudio'r Beibl gyda'n gilydd.
Croeso cynnes i bawb!
4 Hydref, 1.30 y.p. 'Myfi yw' (Festri Trefnant)
11 Hydref, 1.30. y.p. 'Myfi yw Bara'r Bywyd' (Festri Llanrhaeadr)
18 Hydref, 1.30. y.p. 'Myfi yw Goleuni'r Byd' (Festri Trefnant)
25 Hydref, 1.30. y.p. 'Myfi yw'r Bugail Da' (Festri Llanrhaeadr)
Os am fwy o fanylion cysylltwch ac Andras ar 07778511672.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Hydref 1af
2.00– Parch Eifion Jones Oedfa Gymun
Dydd Iau, Hydref 5ed – Gŵyl Diolchgarwch
2.00 – Pregethir gan y Parch Brian Wright
Dydd Sul, Hydref 15fed
2.00 – Parch Andras Iago
Dydd Sul, Hydref 22ain
10.00 - Mrs Enid Davies, Eglwys Bach

Ail gychwyn ein Cinio Cynnil ar **Dydd Llun Hydref 9fed**
o 12.00 – 1.00 yn y Festri. Croeso cynnes i bawb.

Dei Griffiths adre wedi anffawd ond yn anffodus wedi gorfod mynd yn ôl i Glan Clwyd. Dymunwn wellhad buan a llwyr iddo.

BRWCWS

Dydd Sul, Hydref 1af
Ysgol Sul am 10.00
Oedfa Gymun – Y Parch. Andras Iago am 2.00
Dydd Iau, Hydref 5ed
Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch am 2.00
Capel Pendref am 7.00 – Parch. Christopher Prew.
Dydd Sul, Hydref 8ed
Ysgol Sul am 10.00
Mr Gwyn Evans am 2.00
Dydd Sul, Hydref 15ed
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Dewi Morris am 2.00
Dydd Sul, Hydref 22ain
Ysgol Sul am 10.00
Mr Tudur Hughes am 2.00
Dydd Sul, Hydref 29ain
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Philip de la Haye am 2.00

Gwobrwyo Ffyddloniaid Yr Ysgol Sul. –
Bydd Gwilym Williams ac Enid Thomas yn derbyn y Fedal Gee ddydd Iau Medi 2017 yn Eglwys Emaus, Bangor am 3.00
Croeso cynnes i bawb.

Nos Fercher, Hydref 18 –
Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws.
Festri Capel y Fron am 7.00
Iona Hughes yn trafod "Ail Gylchu".
Dechrau, diolch a'r baned yng ngofal Chwiorydd y Brwcws

Y DYFFRYN

Dydd Sul Hydref 1af am 11.15 - Parch Cath Williams
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion 10.30)
Emyn a darllen - Anwen
Organ - Helen
Blodau - Menna E

Dydd Sul Hydref 8fed am 10.00 y.b. YN Y DYFFRYN
Gwasanaeth Diolchgarwch plant Dyffryn a Gellifor ar y cyd. Gwneir casgliad at y Banc Bwyd. Bydd y plant yn cyfrannu tuniau a pacedi yn rhan o'i gwasanaeth.

Nos Iau 12fed yn Capel Y Dyffryn – 7.00
Gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal
Y Parch Carwyn Sidall,Llanuwchllyn
Derbynnir yn ddiolchgar yr Offrwm Diolch.

Dydd Sul 15fed am 10yb -
Gwasanaeth dan ofal Y Parch Andras Iago
ar gyfer plant a bobl ieuanc.

Nos Lun 16fed am 6.30-
Y Gymdeithas - swper ac adloniant
gan Ann Atkinson a'i chwmni

Dydd Sul 22ain am 10.00 - Parch R Glyn Jones
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion 9.30)
Emyn a darllen - Richard
Emyn a darllen y plant - Nanw/Malan
Organ - Alaw
Blodau - Sioned

Dydd Sul 29ain am 2 o gloch y pnawn -
Gwasanaeth i'r teulu gyda paned i ddilyn.
Teulu Y Berth
Organ - Lona
Blodau - Iona

Nos Lun 30ain am 7.00 Y Gymdeithas
Noson o ddiddordebau.

GELLIFOR

Dydd Sul Hydref 1 – Dyffryn – 11.15
Parch Cath Williams
Dydd Sul Hydref 8 – 10.00 - Dyffryn
Gwasanaeth Unedig Diolchgarwch
Dydd Sul, Hydref 15 – 11.15
Parch Andras Iago
Gwasanaeth Dechreuol – Hafod y Coed
Cyfeilio – Margaret
Blodau – Elsbeth
Dydd Sul, Hydref 22 – 11.15 Gellifor
Parch R. Glyn Jones
Gwasanaeth Dechreuol – Elaine
Cyfeilio – Richard
Blodau – Elsbeth
Dydd Sul, Hydref 29 –
Gweler Cadwyn Bro

FRON

Llywydd y mis – Dilys Davies

Dydd Sul, Hydref 1af
10.00 – Capel Mawr – Bugail – oedfa Gymun
5.30 – Fron – Bugail
Offeryn– Iona Edwards

Dydd Sul, Hydref 8fed
10.00 – Fron – Mr Gwyn Evans, Llysfaen
5.30 – Capel Mawr – Mr Gwyn Evans
Offeryn –Eiri Jones

Dydd Sul, Hydref 15fed
10.00 – Fron – Parch Dewi Morris
5.30 – Capel Mawr – Parch Dewi Morris
Offeryn – Iona Edwards

Dydd Sul, Hydref 22ain
10.00 – Capel Mawr – Mr Tudur Hughes, Llanddoged
5.30 – Fron – Mr Tudur Hughes
Offeryn –Eiri Jones

Dydd Sul, Hydref 29ain
10.00 – Fron – Parch Philip de la Haye, Bala
5.30 – Capel Mawr – Trefniant mewnol
Offeryn – Iona Edwards

Dechrau Canu – Gwyneth Morris

Diolchgarwch
Dydd Iau, Hydref 5ed – yn y Fron am 10.00 – Cyfarfod Gweddi
Nos Iau yn Capel Pendref Oedfa diolchgarwch undebol ar pregethwr gwadd ydi'r Parch Christopher Prew.

Blodau yn gyfrifol – Mrs Alwena Jones
1af – Mrs Magi Jones
8fed
15fed – Mrs Megan Williams
22ain
29ain

Croesawu

1af – Erfyl Williams
8fed – Wendy Lloyd Jones
15fed – Richard Snelson
22ain – Aelwyn Lloyd
29ain – John Howatson

Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron

Nos Fawrth, Hydref 10fed. am 7yh yn y festri
Sgwrs gan Arthur Gwynn Jones, Hendrerwydd:
'Ffon at waith a chynhaliaeth.'
Croeso cynnes i bawb.

Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws

Nos Fercher Hydref 18fed. Sgwrs gan Iona Hughes ar "Ail Gylchu" yn Festri'r Fron am 7 o'r gloch.

Yr ydym fel eglwys yn anfon ein cofion a dymuniadau gorau at Mrs Beti Jones, 38 Trewen a Mrs Megan Williamsm, Groeswen, y ddwy wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Brysiwch wella. Hefyd y mae Mrs Eurwen Pierce yn ôl yn yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur wedi cyfnod yn yr Infirmary.

Yn ystod mis Awst yr ydym wedi colli aelod. Bu farw Mrs Hannah Mary Evans, 35 Cysgodfa yn yr Infirnary. Yr oedd Mrs Evans wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar gyda ni. Fe dderbyniodd y Fedal Gee am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Yr oedd wedi codi arian i brynu llestri'r gegin ac hefyd wedi gweu llawer o flancedi i anfon dramor. Yr ydym yn cydymdeimlo gyda Edna a Emyr a'r teulu i gyd yn ei profedigaeth.

Diolch i bawb wnaeth gyfranu mewn unrhyw fodd at y bore goffi bore dydd Sadwrn, Medi 8fed ar elw yn mynd at Gronfa Corwynt Cariad.

Y CAPEL MAWR A SEION

Dydd Sul, Hydref 1
10am – Y Capel Mawr - Y Gweinidog - oedfa Gymun
5.30pm – Y Fron – Y Gweinidog
Dydd Iau, Hydref 5
Diolchgarwch y Dref
10am – Cyfarfod Gweddi yng Nghapel Pendref
7pm – Oedfa Bregethu yng Nghapel Pendref
gyda'r Parch. Christopher Prew
Dydd Sul, Hydref 8
10am –Y Fron – Mr Gwyn Evans
5.30pm – Y Capel Mawr – Mr Gwyn Evans
Dydd Sul, Hydref 15
10am – Y Fron – Y Parch. Dewi Morris
5.30pm – Y Capel Mawr – Y Parch. Dewi Morris
Dydd Sul, Hydref 22
10am – Y Capel Mawr – Mr Tudur Hughes
5.30pm - Y Fron - Mr Tudur Hughes
Dydd Sul, Hydref 29
10am – Y Fron – Y Parch. Philip de la Haye, Y Bala
5.30pm – Y Capel Mawr – Trefniant mewnol

Llywydd Y Mis: – Mr Stan Lyall

Wrth y Drysau:-
Mr Bedwyr Griffiths
Mr Glyn Jones

Casglyddion:-
Mr Bedwyr Griffiths
Mr Glyn Jones

Organyddion/Cyfeilyddion:-
Hydref 1 – Mrs Dorothy Rogers
Hydref 8 - Mrs Catrin Warren
Hydref 15 – Mrs Doris Williams
Hydref 22- Mrs Dorothy Rogers
Hydref 29 - Mrs Catrin Warren

Rhoddir y Blodau gan:-

Hydref 1 - Mrs Doris Williams
Hydref 22 – Mrs Phyllis Lloyd

Llety'r Gweinidog

Hydref 8 – Y Fron
Hydref 15 - Y Capel Mawr
Hydref 22 - Y Fron

COLLI AELOD - Yn ystod wythnos gyntaf mis Medi bu inni golli Mr Tom Roberts, Greenacres, Ffordd Rhuthun gynt. Roedd yn gyn-flaenor uchel ei barch yn yr eglwys a bu'n ffyddlon i'r oedfaon hyd y gallai. Gŵr tawel a doeth ydoedd.

Cynhaliwyd ei angladd ar ddydd Iau, Medi 14eg, gyda gwasanaeth yn y capel cyn ei roddi i orffwys ym mynwent y dref.

Cydymdeimlwn â'i fab David a'i ferch Bethan a'u teuluoedd yn eu galar a meddyliwn amdanynt yn ein gweddïau.

DYMUNIADAU GORAU - Anfonwn ein cyfarchion at aelodau o'r eglwys nad ydynt mewn llawn hwyliau ar hyn o bryd, boed hwy mewn cartrefi preswyl, yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi. Rydym oll yn meddwl amdanoch.

LLONGYFARCHIADAU - Llongyfarchwn Mr Hywel Vaughan ar gyrraedd ei benblwydd yn 96 mlwydd oed. Penblwydd hapus, Mr Vaughan.

PENTRE, PRION, GLYN

Dydd Sul, Hydref 1af
10.00 Pentre Mr Dennis Davies, Gwasanaeth Diolchgarwch
Dydd Sul, Hydref 8fed
10.00 Pentre Gwasanaeth Diolchgarwch
y plant a'r bobl ifanc ac anerchiad gan ein Gweinidog
Dydd Sul, Hydref 15fed
10.00 Prion Mr Gwyn Evans
Dydd Sul, Hydref 22ain
10.00 Pentre Parch Glyn Thomas
Dydd Sul, Hydref 29ain
10.00 Prion Mr Aled Lewis Evans

YMWELD A'R YSGWRN – Aeth criw ohonnom i ymweld â'r Ysgwrn, ac er gwaetha'r tywydd, cawsom ddiwrnod arbennig iawn yno. Cawsom sgwrs diddorol a'n tywys o gwmpas y tŷ a'r adeiladau fferm sydd wedi cael eu hadnewyddu yn hardd iawn. Cawsom gyfle i weld y Gadair Ddu a chyfle i eistedd yn yr ystafell fyw. Roedd pawb wedi mwynhau y storiau difyr.

CYDYMDEIMLO – Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Morfydd Evans sy wedi colli ei brawd yng nghyfraith, sef Tommy Roberts o Ddinbych.. Roedd hefyd yn ewythyr i Rhian Hafod y Bryn, ac yn nai i Mr John R Hughes. Hefyd i deulu Derwen Deg (Bryn, Lowri, Elain a Lois) sydd wedi colli nain a hen-nain annwyl, ein cofion atoch i gyd.

DYMUNIADAU GORAU – am wellhad buan i Mr Dafydd Roberts Cwm Parc sy wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ac i'r nifer sy wedi bod o dan brofion a thriniaethau yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch chwi oll.

CYMDEITHAS – Nos Wener 13eg o Hydref, am 6.30yh, swper o lob sgaws a phwdin. Adloniant i ddilyn gan Band Ieuenctid y Sir. Cost y Swper £5 Croeso cynnes i bawb

PRION

Gwellhad buan i Eirlys Roberts, Bryn Awel sydd wedi derbyn llaw driniaeth. Gobeithio y byddwch yn well yn fuan.

GLYN

Dydd Sul Hydref 8fed am 2 o'r gloch
fe gynheir Gwasanaeth Diolchgarwch
gyda'r Parch Andras Iago yn gwasanaethu.

Dymuniadau gorau i Sioned Tŷ Mawr wrth iddi gychwyn a'r gwrs gyda Urdd Gobaith Cymru yng Ngwersyll Llangranog.

Llongyfarchiadau i Dafydd, Ynyr a Catrin a gafodd ganlyniadau da iawn yn eu haroliadau eleni a phob lwc i chwi i'r dyfodol.

TREFNANT

Llywydd y Mis TUDOR MARS JONES

Dydd Sul Hydref 1af
10.00 Parch Cath Williams
11.00 YSO
3.00 Parch Cath Williams
Blodau : Beti Roberts

Dydd Sul Hydref 8fed
10.00 Mrs Delyth Davies, Chwilog
11.00 YSO
3.00 Mrs Delyth Davies
Blodau : Mair Stanyer

Nos Fercher Hydref 11eg
7.00 pm Cyfarfod Gweddi yr Wyl Ddiolchgarwch

Nos Iau Hydref 12fed
6.30 pm Gwasanaeth Diolchgarwch
dan ofal y Parch Rhodri Glyn
gyda Swper Diolch i ddilyn gyda chasgliad arbennig at
Corwynt Cariad – Apel Cymorth Cristnogol y Cyfundeb eleni

Dydd Sul Hydref 15fed
10.00 Parch R W Jones 11.00 YSO
3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Diolchgarwch

Dydd Sul Hydref 22ain

10.00 Parch Andras Iago
Gwasanaeth y Cymun Sanctaidd gyda phaned a sgwrs i ddilyn
3.00 Parch Andras Iago
Blodau : Gwen Roberts

Dydd Sul Hydref 29ain

10.00 Mr Dilwyn Jones 11.00 YSO
3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Mair Roberts

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Mae'r cyfarfodydd ar brynhawniau Llun yn ail-ddechrau ar Fedi'r 18fed 2017 rhwng 2.00 – 4.00 pm. Byddwn yn cyflawni gwaith creadigol yn ystod y flwyddyn ac yn mwynhau addoliad, paned a sgwrs gyda'n gilydd. Croeso cynnes i aelodau cyfarwydd ac eraill o'r newydd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL Bydd rhaglen y Gaeaf yn cychwyn gyda'r Swper Diolch ar Nos Iau, Hydref 12fed a bydd rhaglen y tymor ar gael ar y noson honno. Croeso cynnes i bawb.

CYDYMDEIMLAD Estynnwn ein cydymdeimlad a theuluoedd Ty Newydd a Pontruffydd ar golli nain, hen- nain a chwaer drwy farwolaeth Mrs Hannah Mary Evans, Cysgodfa , Dinbych. Cofiwn amdanoch yn eich hiraeth.

CYFARCHION a DYMUNIADAU GORAU i bawb sydd wedi cael salwch yn ddiweddar - cofiwn yn arbennig am Dewi Poole a Gwenlys Jones. Cofion at bawb arall sy'n methu'r gwasanaethau ar hyn o bryd. Anfonwn yr un dymuniadau gorau at aelodau sy'n gadael cartref i barhau eu haddysg bellach ar ol ennill cymwysterau arbennig yn lefel A - mae Cadi Mars Jones ar ei ffordd i astudio yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd, tra bod Fiona Roberts, Pen Isa'r Waun, yn mynd i Brifysgol Efrog. Yr un dymuniadau i Ben Jones, wrth barhau ei addysg yng Ngholeg Llandrillo, ac i Sion Roberts fydd yn cychwyn ar astudiaethau lefel A yn Ysgol Glan Clwyd. Hwyl fawr i chi gyd.

NEGES NESTA

Cyn cyflwyno fy hun i'r Weinidogaeth treuliais sawl blwyddyn yn Codi Canu yn Eglwys Mynydd Seion Abergele, a chawn fy nghyfareddu gan y gymysgedd o narratif a cherdddoriaeth .Mae emynau yn cyfoethogi addoliad drwy grisialu crêd a chanolbwyntio'r meddwl ar Ystyr y Gair, a'n calonogi mewn cyfnodau anodd, a'n hysbrydoli a'n bendithio

Dysgais lawer am sylfaen ein ffydd drwyddynt felly pan fu i Bwyllgor CYTUN Dinbych benderfynnu cynnal Cymanfa Ganu i gasglu arian at Eisteddfod Urdd ddaw i'r Fro yn 2020 ar Hydref 1af roeddwn wrth fy modd. Cawsom gyflwyniad i'r Pêr Ganiedydd gan ein Gweinidog er mwyn cydnabod bod 300mlynedd ers ei eni. Diolch yn fawr i Swyddogion y Capel Mawr a phawb am gefnogi.

Diolch hefyd i'r rhai a wnaeth gyfrannu dillad gwely a sach gysgu i'r anffodusion sy'n dioddef effaith y Tirlithriadau yn Sierra Leonne – ac ieraill gyfrannodd at Gymorth Cristnogol sy'n barod ymhob argyfwng. Ac a fuoch yn brysur gyda Apêl Corwynt Cariad? Mae'r amser yn brysur fynd cyn i'r Apêl Gau.

Pan oeddwn ar fy ngwyliau yn Ffrainc bum ar ymweliad a sawl Eglwys nodedig ac roedd hynodrwydd y ffenestri lliw yn fy syfrdannu – yn y Canol-Oesoedd pan oedd y Werin yn anllythrennog roedd rhain a'r Cerfluniau cywrain yn gymorth gweledol iddynt ddarganfod y gwirioneddau mawr. Roedd Tair Ffenestr Siâp Rhosyn yng Nghadeirlan Chartres, ac un gydag arwyddion y Sidydd yn disgleirio ar Labyrinth ar Lawr Cerrig yr Eglwys. Roedd cerdded y Siâp a myfyrio fel y gwnai'r pererinnion slawer dydd yn brofiad ysbrydol iawn



Mae Encil ym Myd Mari Jones yn brofiad o'r fath, fel y profodd criw o Drefnant yn yr Haf, a daeth Cydlynnydd y Gogledd o Gynllun Dorcas Carys Davies atom i annerch. Yn Noson yr Hydref o Bwyllgor Chwiorydd yr Henaduriaeth gan ein hysbrydoli i baratoi pethau at *Dress a Girl around the World*, a *Festiau Sgloion* i fabis yn Affrica, sgwariau i famau sydd yn gobeithio bwydo o'r Fron a'u babis yn yr ysbyty, Menyg Gof a.y.y.b Dymna sialens i'r dosbarthiadau Gweithgareddau ymgymeryd a hwy dros y Gaeaf.



Os hoffwch wybod mwy am Ysbrydolrwydd bydd Cynhadledd Cynnal wedi ei drefnu gan Y Stafell Fyw Caerdydd yn Berea Newydd Bangor ar Hydref 18fed o 10 y bore tan 4.00 y prynhawn. Mae ho am ddim, ond hoffent wybod o flaen llaw er mwyn paratoi adnoddau a bwyd ar gyfer y mynnychwyr

cynnal

Rydym wedi ail-gydio gyda Rhaglen Newydd o Agor y Llyfr, ac os gallwch roi awr neu ddwy i wirfoddoli I'm helpu ar Fore Llun rhwng 8.30 a 10.00 byddaf yn ddiolchgar dros ben. Cysylltwch ar 07870323790.

Rhifyn Tachwedd o'r Cadwyn Bro, erbyn dydd Gwener Hydref 20

e-bost: gwenfyljones@btinternet.com neu: 01745890417